CYMDEITHAS BOB OWEN

Elusen Gofrestredig Rhif 507948

# Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

**CYMDEITHAS BOB OWEN**

Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn (Awst-Gorffennaf neu Ionawr-Rhagfyr) i'w anfon i'r Trysorydd

**SWYDDOGION**

*Cadeirydd:*
Dr Brynley F. Roberts
Hengwrt, Ffordd Llanbadarn
Aberystwyth, Ceredigion
SY23 1HB
(01970) 623577

*Ysgrifennydd:*
Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon, Aberystwyth
Ceredigion SY23 1PL
(01970) 623174

*Trysorydd:*
Miss Anne K. Till
Tan-y-bryn, Llandre, Bow Street
Ceredigion SY24 5AD
(01970) 820235

*Trefnydd Hysbysebion:*
Gwilym Tudur
Siop y Pethe, Aberystwyth
Ceredigion
(01970) 617120

*Golygydd:*
Mel Williams
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn
Y Bala, Gwynedd LL23 7TA
(01678) 540652

*Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:*
Y Swyddogion
Dr Huw Edwards
Dr Rhidian Griffiths
Dr R. Geraint Gruffydd
E. Wyn James
Dafydd Glyn Lloyd Hughes
Huw Ceiriog Jones
Richard H. Lewis, Gwilym Tudur
Y Parchg Ddr Dafydd Wyn Wiliam
Huw Williams

Cyhoeddir *Y Casglwr* gyda chymorth ariannol Cyngor y Celfyddydau.

**Y RHIFYN NESAF**

Erthyglau a mân hysbysebion i'r **GOLYGYDD**
**ERBYN IONAWR 29**

Neilltuo gofod hysbysebu i'r **TREFNYDD HYSBYSEBION**
**ERBYN IONAWR 29**

Copi o'r hysbyseb i'r **GOLYGYDD**
**ERBYN CHWEFROR 5**

**Gwasg Gwynedd**

**Cibyn, Caernarfon**
**Gwynedd LL55 2BD**

**Argraffwyr a Chyhoeddwyr**

**Ffôn: (01286) 674486**

# ELEN ROGER JONES
## yn trafod gwisgoedd

Wrth ymdrin â drama mewn gwahanol ardaloedd, rhan o'r cynhyrchu fyddai gofalu am wisgoedd i'r cymeriadau, a golygai hynny yn aml holi a benthyca. Wrth ddychwelyd y dillad cawn y geiriau weithiau, 'Cadwch nhw, does gen i ddim iws iddyn nhw bellach'. Dyna gychwyn ar gasglu hen wisgoedd sydd wedi cydio ynof — ac nid yn unig y gwisgoedd ond pethau sy'n gysylltiedig â nhw, fel hetiau, capiau, boneti, coleri, tlysau, bagiau ac esgidiau.

Petai rhaid dewis o'r casgliad — y tri darn a dderbyniais gan wraig o Ddyffryn Clwyd ddeuai i'r brig. Anghofia 'i mo'r wefr o agor y parsel a chanfod y gêp harddaf a welais erioed, mewn melfed du wedi'i haddurno â mwclis i greu patrwm cywrain, a chyda plu estrys o gylch ei godre. I gyd-fynd â hi roedd yna sgert laes mewn sidan trwchus gyda chwmpas llydan iddi, a llaesach y tu ôl, ac i lawr y ffrynt 'panel' ac, fel yn y gêp, patrwm arno wedi'i addurno â mwclis. Y trydydd darn oedd bodis o sidan du a llawer iawn o bletiau arno yn dangos gwaith llaw rhyfeddol.

Roeddwn wrth fy modd pan ddaeth rheswm a chyfle i mi wisgo'r tri dilledyn arbennig yma. Wrth chwarae rhan priod John Gabriel Borkman yn y ddrama o'r un enw gan Ibsen oedd hynny pan gyflwynwyd hi yn Theatr Fach Llangefni dan gyfarwyddyd medrus Emyr Jones yn 1960.

Dywedir i'r Frenhines Fictoria alaru am gyfnod maith pan fu farw ei phriod, Albert, yn Ynys Wyth, ac fe ddaeth yn ffasiynol i ferched ddilyn arferiad y Frenhines o wisgo du.

Gwelais y ffilm 'Mrs Brown' yn ddiweddar gyda Judy Dench yn chwarae rhan y Frenhines Fictoria a sylwais gyda balchder fod gen i yn fy nghasgliad goleri les yn union fel y rhai a wisgai'r Frenhines ar ei bodis du.

Gwnaeth Curnow Vosper gymwynas â'r hen wisg Gymreig pan roddodd le mor amlwg iddi fel gwisg Siân Owen yn ei lun enwog 'Salem', a baentiodd yn 1908. Rwy'n falch fod gen i un o'r hetiau corun uchel mewn cyflwr da, a bonet gwyn. Roedd yn arferiad bryd hynny i wisgo cap neu fonet gwyn yn y tŷ gan mai to gwellt fyddai i'r tai a deuai llwch a phryfetach i lawr ohono. I fynd allan i addoldy neu i'r ffair y gwisgid yr het ar ben y bonet.

# SIOP LYFRAU'R HEN BOST
## Blaenau Ffestiniog LL41 3AA
## Ffôn: (01766) 831802

1. Roberts, R. S. a Gruffydd, W. J.: *Telynegion*, 1930; llofnod W. J. Gruffydd.......... £6.50
2. Evans, E. L.: *Hanes Pontarddulais*, 1949.......... £8.00
3. Trow, A. H. & Brown, D. J. A.: *A Short History of the University of South Wales & Monmouthshire*, 1933.......... £6.00
4. *O Lwch y Lofa: Cyfrol o Ganu Chwech o Lowyr Sir Gar*, 1924.......... £8.00
5. Owen, Ellis: *Cell Meudwy*, 1877.......... £10.00
6. Myrddin Fardd: *Adgof Uwch Anghof*.......... £9.50
7. Hughes, Morris J.: *Hanes Methodistiaeth Liverpool*, 1929, 3 cyfrol.......... £12.00
8. Richard, Henry: *Letters and Essays on Wales*, 1884, cyflwyniad awdur.......... £7.00
9. *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 1930, wedi eu rhwymo.... £5.00
10. *The Story of Merthyr Tydfil*, 1932.......... £6.50
11. Ashton, C.: *Bywyd ac Amserau yr Esgob Morgan*, 1891.......... £6.50
12. Edwards, G. & Summer, G.: *The Historical & Cultural Connections & Parallels between Wales & Australia*, 1991.......... £9.50
13. Parry, E.: *My Own Way*, 1932.......... £9.50
14. Davies, Jacob: *Hanes Eglwys Penybont*, 1956.......... £4.00
15. *Hanes Eglwys y Bedyddwyr, Carmel, Penfro*, 1935.......... £4.50
16. Jones, Ivor Wynne: *Shipwrecks of North Wales*, 1973.......... £10.50
17. Williams, R. O.: *Cyngor Dosbarth Gwledig Deudraeth, Hanes 1894-1974*, 1974.......... £4.50
18. Michael, D. (Dewi Afan): *Fy Ngwanwyn*, 1873.......... £5.50
19. *Hanes Eifionydd Farmers Association Limited, 1908-1958*.......... £4.50
20. *The Adventures of Twm Shon Catty*.......... £7.50
21. Thomas, Ben Bowen: *The Old Order*, 1945.......... £5.00
22. Hoskins, D.: *Hanes Eglwys Moriah, Caernarfon, 1787-1926*.......... £7.50
23. Williams, Gilbert: *Rhyfelgyrch Hywel*.......... £10.00
24. Hughes, W.: *Life and Times of Bishop William Morgan*, 1891.......... £8.50
25. Williams, T.: *Hanes Achos y Methodistiaid yn Tydweiliog a Phenllech*, 1909.......... £6.50
26. Daniel, J.: *Archaeologia Lleynensis*, 1892.......... £5.00
27. *Cyfansoddiadau Eisteddfod Sarn Meillteyrn*, 1883; yn cynnwys 'Enwogion Lleyn'..... £9.00
28. *Y Mesurydd Tir a Choed*, 1883.......... £5.50
29. Jones, R.: *Crynwyr Bore Cymru*, 1931.......... £12.00
30. Gruffydd, W. J.: *Caneuon a Cherddi*, 1906.......... £9.00
31. Jones, J. R.: *Gwaedd yng Nghymru*, 1970.......... £5.50
32. Williams, T. O.: *Hanes Cynulleidfaoedd Undodaidd Sir Aberteifi*.......... £6.50
33. Jones, E. P.: *Cerddorion a Thraddodiad Cerddorol Sir Forgannwg*.......... £4.50
34. Carr, H. R. C. & Lister, G. A.: *The Mountains of Snowdonia*, 1948.......... £20.00
35. Pierce, S.: *Hanes Bedyddwyr Penrhyn a'r Cylch*, 1914.......... £7.50

**MÂN LYFRYNNAU A PHAMFFLEDI**

36. Passmore, S. C.: *One Village's War, New Quay, 1939-1945*, 1995, 36tt.......... £3.00
37. Prichard, Caradog: *Awdl 'Yr Argae'*, 8tt.......... £3.50
38. Williams, W. Gilbert: *Dial y Forwyn*, 1949, 10tt.......... £8.50
39. *Index: A Few Thoughts*, yn y ddwy iaith, 1930, 31tt.......... £4.00
40. *Yr Ymddiddanydd*, Rhif 1, Cyf. 1, Hydref 15, 1885.......... £4.50
41. *Rhôl Anrhydedd Eglwys Penmount a Sand Street, Pwllheli*, 16tt.......... £5.50

**CODIR YN YCHWANEGOL AM GLUDIAD**